GIG CYMRU NHS WALES

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Public Health Wales

Tueddiadau Iechyd Rhywiol yng Nghymru:

Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol, darpariaeth Dulliau Atal Cenhedlu Brys a Chyfnod Hir Gwrthdroadwy

Adroddiad Blynyddol 2026 v.2

(Data hyd at ddiwedd 2025)

Gwybodaeth am Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bodoli i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru. Rydym yn gweithio'n lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gyda'n partneriaid a'n cymunedau.

Y Ganolfan Wyliadwriaeth ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rhif 2 Capital Quarter

Stryd Tyndall

Caerdydd

CF10 4BZ

www.icc.gig.cymru/

Cydnabyddiaethau:

Hoffai Iechyd Cyhoeddus Cymru ddiolch i bawb a gyfrannodd at ddarparu gwasanaethau, data a systemau gwyliadwriaeth ar gyfer iechyd rhywiol yng Nghymru.

Adroddiad wedi'i baratoi gan grŵp pwnc arbenigol BBV, STI, TB ac Anghydraddoldebau, Y Ganolfan Wyliadwriaeth ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Awgrym ar gyfer Cyfeiriad: Is-adran Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru (2026). Tueddiadau Iechyd Rhywiol yng Nghymru: Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol, darpariaeth Atal Cenhedlu Brys a Chyfnod Hir Gwrthdroadwy - Adroddiad blynyddol (data hyd at ddiwedd 2025). Caerdydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cynnwys

Rhestr Byrfoddau 6

Crynodeb gweithredol 7

Diben 7
Y canfyddiadau allweddol 7

Ffynonellau data 10

Profion a diagnosisau STIs 11

Profi ar gyfer STIs 11
Diagnosisau STIs 18
Ailheintiadau: 24
Cyd-heintiadau 26

Atal cenhedlu 27

Dulliau atal cenhedlu cyfnod hir gwrthdroadwy (LARC) 27
Atal cenhedlu brys 30

Atodiadau 32

Tablau

Tabl 1: Nifer y profion STIs, yn ôl haint, gwasanaeth profi a blwyddyn 2016-2025, Cymru. 11
Tabl 2: Nifer yr unigolion a brofwyd, yn ôl haint, gwasanaeth profi a blwyddyn 2016-2025, Cymru 12
Tabl 3: Tabl gwres o'r gyfradd brofi fesul 100,000 o'r boblogaeth (ffynonellau cyfunol). Mae'r lliw glas tywyllach yn dynodi cyfraddau uwch. 13
Tabl 4: Nifer yr unigolion a brofwyd mewn SHCs yn ôl rhyw, grŵp oedran, Bwrdd Iechyd preswyl, ethnigrwydd, a blwyddyn$ 2016 i 2025 13
Tabl 5: Nifer yr unigolion a brofwyd drwy'r gwasanaeth GPP, yn ôl rhyw, grŵp oedran, Bwrdd Iechyd preswyl ac ethnigrwydd, 2021-2025 14
Tabl 6: Nifer yr unigolion a brofwyd gan feddygon teulu/ANC yn ôl rhyw, grŵp oedran a bwrdd iechyd preswyl, 2016-2025 15
Tabl 7: Nifer y gwrywod a brofwyd mewn carchardai Cymru, yn ôl STI a blwyddyn 2016-2025 16
Tabl 8: Nifer y gwrywod a brofwyd mewn carchardai yng Nghymru, yn ôl grŵp oedran, carchar a blwyddyn 2016-2025 16
Tabl 9: Nifer yr unigolion a gafodd ddiagnosis o STIs a chyfradd bositifedd (%), yn ôl lleoliad a blwyddyn 2016 i 2025 19
Tabl 10: Nifer yr unigolion a brofwyd a nifer a chyfran (%) yr unigolion â chanlyniad positif yn GPP, yn ôl STI a blwyddyn 2021 i 2025 20
Tabl 11: Diagnosisau clamydia fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl rhyw, oedran, Bwrdd Iechyd, ethnigrwydd $, a blwyddyn (ffynonellau cyfunol). Mae'r lliw glas tywyllach yn dynodi cyfraddau uwch. 20
Tabl 12: Diagnosisau gonoroea fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl rhyw, oedran, Bwrdd Iechyd, ethnigrwydd $, a blwyddyn (ffynonellau cyfunol). Mae'r lliw glas tywyllach yn dynodi cyfraddau uwch. 21

Tabl 13: Diagnosisau siffilis fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl rhyw, oedran, Bwrdd Iechyd, ethnigrwydd $, a blwyddyn (ffynonellau cyfunol). Mae'r lliw glas tywyllach yn dynodi cyfraddau uwch. 21
Tabl 14: Nifer yr unigolion a gafodd ddiagnosis o siffilis, ffurflenni gwyliadwriaeth siffilis estynedig, yn ôl cam yr haint a'r flwyddyn 2016 i 2025 22
Tabl 15: Diagnosisau herpes gwenerol pwl 1af fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl rhyw, oedran, Bwrdd Iechyd, ethnigrwydd $, a blwyddyn.Mae'r lliw glas tywyllach yn dynodi cyfraddau uwch. 22
Tabl 16: Diagnosisau defaid gwenerol pwl cyntaf fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl rhyw, oedran, Bwrdd Iechyd, ethnigrwydd $, a blwyddyn. Mae'r lliw glas tywyllach yn dynodi cyfraddau uwch. 23
Tabl 17: Nifer y gwrywod a gafodd ddiagnosis mewn SHCs, yn ôl cyfeiriadedd rhywiol a gafodd ei hunan-adroddd, haint a blwyddyn 2016-2025 24
Tabl 18: Nifer yr unigolion a gafodd ddiagnosis o frech M, fesul Bwrdd Iechyd yn 2022-2025 24
Tabl 19: Nifer yr unigolion a gafodd ddiagnosis mewn SHCs o clamydia, gonoroea neu siffilis yn 2025 a nifer a chyfran (%) yr unigolion a gafodd haint rhwng 2022 a 2024 (data SHCs yn unig) 25
Tabl 20: Nifer yr unigolion a gafodd ddiagnosis mewn SHCs yn 2025, gyda thystiolaeth o ailheintiadau clamydia, gonoroea neu siffilis, yn ôl rhyw, grŵp oedran, Bwrdd Iechyd ac ethnigrwydd[$] 26
Tabl 21: Nifer yr unigolion â chyd-heintiadau STIs yn 2025 26
Tabl 22: Cyfradd cyd-heintiadau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl cyd-heintiad, rhyw, grŵp oedran, Bwrdd Iechyd preswyl, ac ethnigrwydd[$] yn 2025 27
Tabl 23: Tabl gwres o'r gyfradd dderbyn fesul 100,000 o boblogaeth o fenywod sy'n derbyn LARC mewn SHCs, yn ôl math a blwyddyn, 2016-2025 28
Tabl 24: Tabl gwres o'r gyfradd dderbyn fesul 100,000 o'r boblogaeth (benywod) o LARC mewn SHCs, yn ôl grŵp oedran, Bwrdd Iechyd, a blwyddyn (mathau cyfunol) 29
Tabl 25: Cyfran y menywod sy'n derbyn unrhyw ddull atal cenhedlu gan SHCs, yn ôl Bwrdd Iechyd a blwyddyn (mathau cyfunol) 29
Tabl 26:Nifer yr unedau LARC a ragnodwyd gan ofal sylfaenol, yn ôl math, Bwrdd Iechyd a blwyddyn, 2020-2025 30
Tabl 27: Nifer yr unigolion a gafodd ddull atal cenhedlu brys mewn SHCs, yn ôl math (geneuol ac IUD) fesul blwyddyn 30
Tabl 28: Nifer y benywod a gafodd ddull atal cenhedlu brys (mathau cyfunol) mewn SHCs, yn ôl grŵp oedran, Bwrdd Iechyd, ethnigrwydd, a blwyddyn, 2016-2025 31
Tabl 29: Cyfran y benywod a gafodd unrhyw ddull atal cenhedlu drwy SHCs sy'n derbyn dulliau atal cenhedlu brys, yn ôl blwyddyn (mathau cyfunol) 31
Tabl 30: Nifer yr unedau atal cenhedlu brys a ragnodwyd gan feddygon teulu ym mhob Bwrdd Iechyd, fesul blwyddyn 31

Ffigurau

Ffigur 1: Nifer yr unigolion a brofwyd am STIs dethol, yn ôl blwyddyn 2016 i 2025, Cymru (ffynonellau cyfunol) 12

Ffigur 2: Map gwres o bobl a brofwyd am STIs mewn SHCs fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl awdurdod lleol preswyl, 2025 14
Ffigur 3: Map gwres o bobl a brofwyd gan ddefnyddio'r gwasanaeth GPP fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl awdurdod lleol preswyl, 2025 15
Ffigur 4: Nifer yr unigolion sy'n derbyn prawf STI, yn ôl grŵp oedran a blwyddyn..... 17
Ffigur 5: Nifer yr unigolion a gafodd ddiagnosis o heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, yn ôl clefyd a blwyddyn 18
Ffigur 6: Nifer yr unigolion sy'n derbyn LARC mewn SHCs, yn ôl math a blwyddyn..... 28

Rhestr Byrfoddau

ANC	Gofal cynenedigol
BIPAB	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
BIPBC	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
BIPCTM	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
BIPCF	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
GBMSM	Dynion hoyw, deurywiol ac eraill sy'n cael rhyw gyda dynion
MT	Meddyg Teulu
BIPHDd	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
HIV	Feirws imiwnoddiffygiant dynol
IUD	Dyfais fewngroth
IUS	System fewngroth
LARC	Dull atal cenhedlu cyfnod hir gwrthdroadwy
BIAP	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
BIPBA	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
STI	Haint a drosglwyddir yn rhywiol
SHC	Clinig iechyd rhywiol
SWS	Cynllun Gwyliadwriaeth Iechyd Rhywiol yng Nghymru
GPP	Gwasanaeth Profi a Phostio

Crynodeb gweithredol

Diben

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r tueddiadau mewn iechyd rhywiol ym mhoblogaeth Cymru hyd at ddiwedd 2025, gan gynnwys gwybodaeth am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol (STIs), darpariaeth atal cenhedlu brys a dulliau atal cenhedlu cyfnod hir gwrthdroadwy (LARC). Mae'r adroddiad wedi'i anelu at lunwyr polisi, clinigwyr a chynllunwyr gwasanaethau iechyd, comisiynwyr, asiantaethau cyfiawnder troseddol ac asiantaethau'r trydydd sector a'r byd academaidd.

NODYN BWYSIG AR GYFLAWNRWYDD DATA:

Bu newidiadau sylweddol yn y ffordd y darperir a phrosesir data am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol (STIs) sy'n deillio o glinigau iechyd rhywiol a'r gwasanaeth Profi a Phostio yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf. Cyflwynir data yma ar gyfer y cyfnod 2016 – 2025 ac maent yn disodli adroddiadau a gyhoeddwyd yn flaenorol.

Yn ogystal, mae problemau technegol parhaus o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF) wedi arwain at dan-adrodd data clinigol ar gyfer 2025. Er bod hyn yn effeithio ar ddata tueddiadau ar lefel y bwrdd iechyd a Chymru, mae dadansoddiad sensitifrwydd yn dangos bod y duedd gyffredinol o ran gostyngiad yn nifer yr holl heintiau a drosglwyddir yn rhywiol yng Nghymru yn 2025 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn parhau i fod yn ganfyddiad clir, ac mae holl ddata'r flwyddyn flaenorol yn gyflawn. O ganlyn, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli data tueddiadau diweddar BIPCF a Chymru gyfan a gall y cyfan fod yn amodol ar newid mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Mae rhagor o fanylion yn Atodiadau A a B.

Y canfyddiadau allweddol

Tueddiadau STI

- O'i gymharu â 2024, cofnodwyd gostyngiadau ar draws yr holl heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a adroddwyd. Yn 2025, roedd:
    - 4,300 diagnosis o clamydia (134.9 fesul 100,000 o'r boblogaeth). Roedd achosion yn fwyaf cyffredin ymhlith menywod ac yn y grŵp oedran 15-24
    - 1,446 diagnosis o gonoroea (45.4 fesul 100,000 o'r boblogaeth). Roedd achosion yn fwyaf cyffredin ymhlith dynion a'r rhai 15-24 oed
    - 414 diagnosis o siffilis (13.0 fesul 100,000 o'r boblogaeth). Roedd achosion yn fwyaf cyffredin ymhlith dynion a'r rhai rhwng 25 a 34 oed.
    - 913 diagnosis o herpes gwenerol pwl cyntaf (35.0 fesul 100,000 o'r boblogaeth). Roedd achosion yn fwyaf cyffredin ymhlith menywod a'r rhai 15-24 oed
    - 880 diagnosis o ddefaid gwenerol pwl cyntaf (27.6 fesul 100,000 o'r boblogaeth). Bu gostyngiad dros 70% yn ystod y degawd diwethaf
- Cafodd 11 achos o frech M eu diagnosio yng Nghymru yn 2025: 10 achos o Cytras IIb ac 1 achos o frech M Cytras Ib, yr achos gyntaf i gael ei adrodd yng Nghymru

- Lle cafodd cyfeiriadedd rhywiol ei hunangofnodi gan ddynion (53% o achosion), mae clamydia, herpes gwenerol, a defaid gwenerol yn cael eu diagnosio'n amlach mewn gwrywod heterorywiol ifanc. Mae gonoroea a siffilis yn cael eu diagnosio'n amlach mewn dynion hoyw, deurywiol ac eraill sy'n cael rhyw gyda dynion (GBMSM).

- **Ailheintiadau**: Mae achosion o ailheintiadau clamydia, gonoroea a siffilis yn amrywio rhwng 9 ac 20% o ddiagnosisau yn 2025. Cofnodwyd y rhan fwyaf o achosion o ailheintiadau mewn Clinigau Iechyd Rhywiol ym Myrddau Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Aneurin Bevan. Mae proffil demograffig unigolion sy'n cael eu hailheintio yn amrywio:
    - Mae ailheintiadau â clamydia yn fwy niferus ymhlith: benywod; grŵp oedran 15-24
    - Mae ailheintiadau â gonoroea yn fwy niferus ymhlith: gwrywod; grŵp oedran 25-34
    - Mae ailheintiadau â siffilis yn fwy niferus ymhlith: dynion; grwpiau oedran 25-34 a 35-44

- **Cyd-heintiadau STI**: Cofnodwyd y cyfraddau uchaf o gyd-heintiadau gonoroea â clamydia neu siffilis mewn Clinigau Iechyd Rhywiol ym Myrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Bae Abertawe. Roedd cyfraddau cyd-heintiadau clamydia a siffilis ar eu huchaf mewn Clinigau Iechyd Rhywiol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae proffil demograffig y cyd-heintiadau yn dangos:
    - Roedd cyd-heintiadau clamydia/gonoroea ar eu huchaf ymhlith dynion a'r rhai 15-24 oed
    - Roedd cyd-heintiadau gonoroea/siffilis ar eu huchaf ymhlith dynion a'r rhai rhwng 35 a 44 oed
    - Roedd cyd-heintiadau clamydia/siffilis ar eu huchaf ymhlith dynion a'r rhai 15-24 oed

Profi

- Ers cyflwyno'r gwasanaeth Profi a Phostio (GPP) yng Nghymru mae cynnydd wedi bod yn nifer y profion STI, fodd bynnag, roedd gostyngiad o 6% yng nghyfanswm cyffredinol y profion STI yng Nghymru yn 2025 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bu gostyngiad o 7% yng nghyfanswm yr unigolion a brofwyd hefyd ers 2024.
- Mae tueddiadau profi yn ôl oedran yn dangos gostyngiad anghymesur mewn profion ymhlith pobl ifanc 15-24 oed, gostyngiad o 20.3% dros y degawd diwethaf.
- Bu gostyngiad o 1.7% yn nifer y gwrywod sy'n cael profion STI mewn carchardai yng Nghymru yn 2025, ac ar draws pob prawf STI, gyda'r gostyngiad mwyaf (2.6%) i'w weld mewn profion clamydia.

Dulliau atal cenhedlu cyfnod hir gwrthdroadwy (LARC)

- Bu gostyngiad yn nifer yr unigolion a dderbyniodd LARC, gan gynnwys dyfais fewngroth (IUD/IUS), mewnblaniad, neu bigiad mewn Clinigau Iechyd Rhywiol yn 2025, yn dilyn sefydlogrwydd cymharol yn y darpariaeth LARC yn y tair blynedd flaenorol:

- Mewnblaniadau oedd y dull LARC a osodwyd amlaf yn 2025, a derbyniodd 6,624 o unigolion y dull hwn o atal cenhedlu

Ffynonellau data

Cynllun Gwyliadwriaeth Iechyd Rhywiol yng Nghymru (SWS)

Mae'r Cynllun Gwyliadwriaeth Iechyd Rhywiol yng Nghymru (SWS) a gyflwynwyd yn 2011, yn coladu gwybodaeth o'r systemau rheoli cleifion electronig a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn clinigau iechyd rhywiol integredig yng Nghymru. Mae SWS yn darparu set ddata Cymru gyfan sy'n cynnwys canlyniadau profion STI a BBV a gwybodaeth am ddiagnosis unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd rhywiol yng Nghymru, ynghyd â rhywfaint o ddata demograffig ac ymddygiadol allweddol ar gyfer yr unigolion hynny megis rhyw, oedran, ethnigrwydd a'r awdurdod lleol lle maent yn byw.

Gwyliadwriaeth Siffilis Estynedig

Mae ffurflenni Gwyliadwriaeth Siffilis Estynedig yn cael eu llenwi gan y clinigydd, gyda'r claf yn rhoi manylion am wybodaeth ychwanegol nad yw'n cael ei chynnwys fel mater o drefn ar systemau clinigol safonol, megis ffactorau risg a rhwydweithiau rhywiol.

Y Gwasanaeth Profi a Phostio (GPP) / The Doctors Lab (TDL)

Cyflwynwyd y gwasanaeth Profi a Phostio (GPP) yng Nghymru yn 2020 fel cynllun peilot i gynorthwyo mynediad parhaus at brofion STI yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r cynllun yn defnyddio pecynnau profi ar gyfer clamydia, gonoroea, siffilis, HIV, hepatitis B a hepatitis C sy'n cael eu harchebu ar-lein a'u hanfon drwy'r post. Mae'r canlyniadau'n cael eu hanfon drwy neges destun at yr unigolion gyda chyfarwyddyd ar gyfer triniaeth glinigol iechyd rhywiol yn ôl yr angen. Cynhyrchir data gan gynnwys y profion y gofynnwyd amdanynt, y samplau a gwblhawyd a'r canlyniadau trwy lwyfan archebu Signum Health a thrwy The Doctors Lab (TDL).

System Rheoli Gwybodaeth Labordai / Casglu Data Datastore

Mae'r System Rheoli Gwybodaeth Labordai (LIMS) yn system wybodaeth gyfrifiadurol y mae staff labordai yn ei defnyddio i gofnodi ceisiadau am brofion patholeg gan wardiau, theatrau, adrannau damweiniau ac achosion brys a chlinigau. Yna caiff canlyniadau'r profion eu cysylltu ag enw'r claf gan LIMS yn barod i'w defnyddio gan y clinigwyr a'u tîm.

Mae ffynonellau data LIMS yn cynnwys yr holl brofion labordy a gynhaliwyd yn labordai GIG Cymru ac felly mae'n darparu gwybodaeth am boblogaeth Cymru gyfan. Mae data carchardai o LIMS ar gael o 2019 ymlaen yn unig.

Casglu Data Presgripsiynau Meddygon Teulu

Mae data meddygon teulu a phresgripsiynwyr anfeddygol am yr holl bresgripsiynau perthnasol yn cael eu casglu gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC).

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn darparu amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth ar lefel genedlaethol ac is-genedlaethol ar gyfer y Deyrnas Unedig a'i gwledydd cyfansoddol yn ôl ardal weinyddol, oedran a rhyw (gan gynnwys elfennau yn ymwneud â newid yn y boblogaeth, oedran canolrifol a dwysedd poblogaeth). Mae ystadegau poblogaeth ar gyfer rhyw, oedran a lleoliad preswyl yn seiliedig ar ffigurau

canol blwyddyn 2023.[1] . Mae amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer Ethnigrwydd yn seiliedig ar gyfrifiad 2021 y SYG[2].

Gweler Atodiad B am gyfyngiadau data

Profion a diagnosisau STIs

Profi ar gyfer STIs

Yng Nghymru, gellir cael profion STI mewn clinigau iechyd rhywiol (SHCs), drwy'r gwasanaeth post (GPP), mewn clinigau Meddygfeydd Teulu (MT) a gofal cynenedigol (ANCs), ac mewn carchardai. Dangosir cyfanswm y profion a gynhaliwyd ym mhob categori gwasanaeth yn Nhabl 1.

Tabl 1: Nifer y profion STIs, yn ôl haint, gwasanaeth profi a blwyddyn 2016-2025, Cymru

		2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025
Clamydia	SHC	66,127	70,395	69,959	77,036	31,120	20,518	25,702	30,042	31,329	27,547
	Post						51,169	60,015	64,234	62,402	60,032
	GP ANC	43,067	41,632	39,960	40,492	30,550	34,499	33,412	32,697	29,583	26,997
	Carchar				1,116	825	627	1,005	940	1,055	1,085
	Cyfanswm	**109,194**	**112,027**	**109,919**	**118,644**	**62,495**	**106,813**	**120,134**	**127,913**	**124,369**	**115,661**
Gonorea	SHC	66,091	70,366	69,919	77,005	31,099	20,502	25,675	30,019	31,305	27,525
	Post						54,716	63,560	67,155	65,613	63,064
	GP ANC	8,791	12,756	13,397	15,144	13,512	21,607	23,679	25,328	24,908	23,727
	Carchar				1,094	806	613	986	931	1,035	1,077
	Cyfanswm	**74,882**	**83,122**	**83,316**	**93,243**	**45,417**	**97,438**	**113,900**	**123,433**	**122,861**	**115,393**
Siffilis	SHC	35,324	37,528	36,055	39,534	15,403	10,583	16,552	21,055	22,132	20,463
	Post						27,335	29,939	29,215	28,840	27,698
	GP ANC	29,518	28,632	28,120	27,404	25,877	25,304	23,716	23,566	22,428	20,363
	Carchar				1,447	1,766	2,435	2,450	5,403	9,385	9,202
	Cyfanswm	**64,842**	**66,160**	**64,175**	**68,385**	**43,046**	**65,657**	**72,657**	**79,239**	**82,785**	**77,726**

Ffynhonnell: SWS, Cynllun Profi a Phostio/TDL a LIMS, 2026

Mae profion cyffredinol ar gyfer STIs wedi gostwng 6% o'i gymharu â 2024, gan barhau i ostwng o'r uchafbwynt 10 mlynedd yn 2023.

O'r holl brofion STI yn 2025, cynhaliwyd y gyfran fwyaf o brofion drwy'r gwasanaeth GPP, sef 48.8%, ac yna SHCs ar 24.5%, MT/ANC ar 23.0%, gyda charchardai yn cyfrif am 3.7%.

Dangosir nifer yr unigolion a brofwyd, yn ôl haint, yn Nhabl 2 a Ffigur 1.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol Amcangyfrifon poblogaeth canol 2023. Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn y SYG

Tabl 2: Nifer yr unigolion a brofwyd, yn ôl haint, gwasanaeth profi a blwyddyn 2016-2025, Cymru

		2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025
Clamydia	SHC	56,314	59,648	58,374	62,962	27,836	17,961	21,927	25,213	26,257	23,373
	Post						38,195	43,452	45,621	44,569	42,510
	GP ANC	39,716	38,378	36,902	37,352	27,983	31,742	30,991	30,241	27,949	25,435
	Carchar				988	718	562	891	830	975	949
	Cyfanswm	**96,030**	**98,026**	**95,276**	**101,302**	**56,537**	**88,460**	**97,261**	**101,905**	**99,750**	**92,267**
Gonorea	SHC	56,293	59,634	58,358	62,943	27,827	17,949	21,915	25,203	26,242	23,361
	Post						39,782	45,103	47,146	46,061	43,840
	GP ANC	7,797	11,426	12,290	13,975	12,586	19,852	21,878	23,195	23,319	22,212
	Carchar				968	701	549	876	821	958	943
	Cyfanswm	**64,090**	**71,060**	**70,648**	**77,886**	**41,114**	**78,132**	**89,772**	**96,365**	**96,580**	**90,356**
Siffilis	SHC	32,171	33,635	31,514	33,790	13,843	8,762	13,627	17,262	18,220	17,126
	Post						19,943	22,238	22,278	21,968	20,577
	GP ANC	28,896	28,109	27,488	26,795	25,067	24,716	22,964	23,022	21,801	19,790
	Carchar				1,409	1,689	2,315	2,383	5,074	8,504	8,366
	Cyfanswm	**61,067**	**61,744**	**59,002**	**61,994**	**40,599**	**55,736**	**61,212**	**67,636**	**70,493**	**65,859**

Ffynhonnell: SWS, Cynllun Profi a Phostio/TDL a LIMS, 2026



Ffynhonnell: SWS, Cynllun Profi a Phostio/TDL a LIMS, 2026

Ffigur 1: Nifer yr unigolion a brofwyd am STIs dethol, yn ôl blwyddyn 2016 i 2025, Cymru (ffynonellau cyfunol)

Noder: Gall data ar brofion glinigol fod yn anghyflawn oherwydd problemau ansawdd data
Mae'r ardal wedi gysgodi yn cyfeirio at ddata anghyflawn o 2025 a gall fod yn destun newid mewn cyhoeddiadau yn y dyfodol

Mae Tabl 3 yn dangos y gyfradd brofi fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer pob haint. Yn 2025, mae cyfraddau profi am clamydia, gonoroea a siffilis i gyd wedi gostwng, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Tabl 3: Tabl gwres o'r gyfradd brofi fesul 100,000 o'r boblogaeth (ffynonellau cyfunol). Mae'r lliw glas tywyllach yn dynodi cyfraddau uwch.

	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025
Clamydia	3120.7	3181.3	3089.5	3280.8	1821.1	2848.4	3104.7	3220.4	3130.3	2895.5
Gonorea	2082.8	2306.1	2290.9	2522.4	1324.3	2515.8	2865.7	3045.3	3030.8	2835.5
Siffilis	1984.5	2003.8	1913.3	2007.8	1307.8	1794.7	1954.0	2137.4	2212.2	2066.8

Ffynhonnell: SWS, Cynllun Profi a Phostio/TDL a LIMS, 2026

Proffil demograffig unigolion a brofwyd am STIs yn ôl lleoliad

Clinigau Iechyd Rhywiol (SHCs)

Dangosir y proffil demograffig ar gyfer unigolion a brofwyd mewn SHCs yn Nhabl 4. Mae profion STI mewn SHCs yn fwy cyffredin ymhlith menywod, gan gyfrif am 57.8% yn 2025, ac mae hyn yn duedd gyson dros y degawd diwethaf. Mae nifer yr unigolion yn y grwpiau oedran 15-24 a 25-34 a brofwyd mewn SHCs wedi gostwng yn sylweddol dros yr un cyfnod. Er y gallai cyflwyno'r gwasanaeth GPP yn 2021 gyfrif am y rhan fwyaf o'r gostyngiad hwn, mae gostyngiad o 20.3% yn parhau o ran profion ymhlith pobl ifanc 15-24 oed, wrth gyfuno data profion SHC a GPP ar gyfer 2025, o'i gymharu â 2016.

Tabl 4: Nifer yr unigolion a brofwyd mewn SHCs yn ôl rhyw, grŵp oedran, Bwrdd Iechyd preswyl, ethnigrwydd, a blwyddyn$ 2016 i 2025

		2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025
Pawb		**56,476**	**59,916**	**58,716**	**63,539**	**28,413**	**19,016**	**23,703**	**27,226**	**28,047**	**24,759**
Rhywedd	Menywod	34,491	36,962	35,911	39,107	17,511	11,319	13,452	15,364	15,940	14,308
	Dynion	21,979	22,945	22,795	24,415	10,893	7,684	10,201	11,781	12,042	10,409
	Anhysbys	6	9	10	17	9	13	50	81	65	42
Oedran	0-14	222	248	179	214	125	117	143	178	168	112
	15-24	28,696	29,721	28,684	30,523	12,931	7,071	8,458	9,553	8,973	7,659
	25-34	17,271	19,080	18,890	20,646	9,476	6,626	8,184	9,209	9,627	8,187
	35-44	6,264	6,701	6,707	7,403	3,638	3,131	4,147	4,864	5,527	5,303
	45-54	2,905	2,923	3,034	3,227	1,496	1,381	1,765	2,119	2,288	2,145
	55+	1,118	1,243	1,222	1,526	747	690	1,006	1,303	1,464	1,353
	Anhysbys	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
BI	BIPAB	14,167	15,218	14,535	15,164	6,765	4,843	5,883	6,912	6,214	6,424
	BIPBC	9,677	9,208	9,702	10,284	4,922	3,792	4,681	4,801	5,498	5,424
	BIPCTM	7,288	6,691	4,276	4,490	1,950	2,167	3,204	3,507	4,043	3,400
	BIPCaF	9,688	11,950	14,065	15,262	6,767	4,138	5,253	5,317	5,210	2,458
	BIPHDd	4,540	5,658	6,840	6,092	2,775	994	1,186	1,707	1,635	1,699
	BIAP	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	BIPBA	11,116	11,191	9,298	12,247	5,234	3,082	3,496	4,982	5,445	5,337
	Anhysbys	0	0	0	0	0	0	0	0	<5	17
Ethnigrwydd	Asiaidd	425	443	459	532	229	122	255	452	506	300
	Du	647	702	721	740	341	225	474	693	716	696
	Cymysg	827	887	916	836	419	294	428	633	689	542
	Arall	529	802	814	676	264	154	260	359	416	272
	Gwyn	50,693	52,848	51,021	53,883	22,037	12,919	16,196	19,830	20,639	17,557
	Anhyshys	3,355	4,234	4,785	6,872	5,123	5,302	6,090	5,259	5,081	5,392

Ffynhonnell: SWS, 2026

$ Mae'n bosibl bod cyfanswm y profion o BIPCF wedi'u tan-adrodd oherwydd problemau mynediad at ddata ac adrodd.

Mae Ffigur 2 yn darparu map gwres sy'n dangos ardal breswyl y rhai a brofwyd.



Ffynhonnell: SWS, 2026

Noder: Mae data ar brofion glinigol yn BIPCF yn anghyflawn oherwydd problemau ansawdd data

Ffigur 2: Map gwres o bobl a brofwyd am STIs mewn SHCs fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl awdurdod lleol preswyl, 2025

Gwasanaeth profi a phostio (GPP)

Roedd profion drwy'r gwasanaeth GPP yn fwy niferus ymhlith: menywod; y rhai 25-34 oed; y rhai o ethnigrwydd Gwyn; ac unigolion sy'n byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (Tabl 5).

Tabl 5: Nifer yr unigolion a brofwyd drwy'r gwasanaeth GPP, yn ôl rhyw, grŵp oedran, Bwrdd Iechyd preswyl ac ethnigrwydd, 2021-2025

		2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025
Pawb							**41,031**	**46,613**	**48,935**	**48,223**	**45,262**
Rhywedd	Menywod						25,486	28,910	30,213	29,897	26,934
	Dynion						14,763	16,841	17,628	17,070	15,663
	Anhysbys						782	862	1,094	1,256	2,665
Oedran	0-14						0	<5	<5	5	21
	15-24						9,235	20,330	20,085	17,632	15,205
	25-34						20,888	17,253	18,192	17,966	17,159
	35-44						7,404	6,177	7,285	8,153	8,569
	45-54						2,386	2,001	2,367	2,761	3,006
	55+						1,007	840	999	1,691	1,283
	Anhysbys						111	<15	<10	15	19
BI	BIPAB						3,974	6,131	6,847	7,019	6,558
	BIPBC						4,534	7,100	7,808	7,780	6,744
	BIPCTM						2,839	4,491	5,296	5,378	4,821
	BIPCaF						8,212	12,761	14,474	13,524	11,235
	BIPHDd						3,207	4,896	5,723	5,584	4,892
	BIAP						703	1,216	1,437	1,524	1,318
	BIPBA						3,467	5,956	6,328	6,038	5,047
	Anhysbys						14,095	4,062	1,022	1,376	4,647
Ethnigrwydd	Asiaidd						0	190	1,045	1,044	796
	Du						0	153	825	980	874
	Cymysg						0	231	1,308	1,374	1,278
	Arall						0	0	127	424	184
	Gwyn						0	8,374	43,203	42,502	35,896
	Anhyshys						41,031	37,665	2,427	1,899	6,234

Ffynhonnell: Gwasanaeth Profi a Phostio/TDL, 2026

Mae Ffigur 3 yn dangos map gwres o'r gyfradd brofi drwy'r post fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol preswyl. Caerdydd oedd â'r gyfradd uchaf o brofion post.



Ffynhonnell: SWS, 2026

Ffigur 3: Map gwres o bobl a brofwyd gan ddefnyddio'r gwasanaeth GPP fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl awdurdod lleol preswyl, 2025

Gofal sylfaenol a gofal cynenedigol

Mae Tabl 6 yn dangos demograffeg y rhai a brofwyd trwy eu meddyg teulu neu glinig gofal cynenedigol (ANCs). Yn 2025, roedd profion gan feddygon teulu/ANCs fel arfer yn fwy niferus ymhlith: menywod; y rhai 25-34 oed a'r rhai sy'n byw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Tabl 6: Nifer yr unigolion a brofwyd gan feddygon teulu/ANC yn ôl rhyw, grŵp oedran a bwrdd iechyd preswyl, 2016-2025

		2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025
Pawb		**66,819**	**64,864**	**62,804**	**62,574**	**51,846**	**55,113**	**52,800**	**52,305**	**48,889**	**44,432**
Rhywedd	Menywod	63,436	61,467	59,559	58,781	49,204	52,474	50,476	47,447	44,403	41,815
	Dynion	3,348	3,352	3,216	3,748	2,606	2,602	2,284	2,533	2,308	2,060
	Anhysbys	35	45	29	45	36	41	69	2,517	2,321	557
Oedran	0-14	55	59	52	62	33	43	59	213	172	50
	15-24	17,853	16,780	15,409	15,379	11,669	11,485	10,668	9,019	7,964	7,623
	25-34	29,238	28,734	28,133	27,778	24,528	25,499	23,796	22,457	20,939	19,407
	35-44	12,973	12,919	12,764	12,878	10,900	12,517	12,259	11,798	11,378	10,806
	45-54	4,889	4,603	4,527	4,533	3,308	3,940	4,274	3,927	3,676	3,609
	55+	1,806	1,766	1,913	1,928	1,396	1,649	1,852	2,636	2,633	2,390
	Anhysbys	<10	<5	<10	16	12	0	2,503	2,310	550	547
BI	BIPAB	13,201	12,611	12,400	12,150	9,828	11,188	11,163	11,351	10,465	10,051
	BIPBC	14,476	13,122	12,609	13,446	10,887	10,492	9,585	8,895	7,682	6,550
	BIPCTM	5,937	5,781	5,730	5,655	4,800	5,225	5,294	5,137	5,088	4,868
	BIPCaF	13,413	13,693	13,186	13,980	11,495	12,084	10,941	10,753	10,272	9,821
	BIPHDd	7,072	6,662	6,338	5,868	5,276	5,593	5,266	5,154	4,701	4,713
	BIAP	1,270	1,347	1,164	1,114	777	796	783	744	682	710
	BIPBA	9,978	9,661	9,500	9,622	8,098	8,919	8,947	9,731	9,507	7,200
	Anhysbys	1,753	2,213	2,092	792	697	858	928	577	515	519

Ffynhonnell: LIMS 2026

Carchardai Cymru

Mae Tabl 7 yn dangos nifer y gwrywod a gafodd brawf am bob STI yn ôl carchar. Yn 2025, Carchar EF y Parc a brofodd y nifer uchaf o ddynion am clamydia a gonoroea. Carchar EF Berwyn a gynhaliodd y nifer uchaf o brofion siffilis ymhlith dynion yn y carchar.

Tabl 7: Nifer y gwrywod a brofwyd mewn carchardai Cymru, yn ôl STI a blwyddyn 2016-2025

		2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025
Clamydia	Carchar EF y Berwyn	127	142	221	208	143	136	187
	Carchar EF y Parc	638	354	137	427	423	634	466
	Carchar EF Caerdydd	11	103	138	162	161	164	221
	Carchar EF Abertawe	171	90	49	72	74	28	73
	Carchar EF Brynbuga	14	5	<5	5	7	<5	<5
	Carchar EF Prescoed	27	24	<20	17	22	<15	<5
Gonorea	Carchar EF y Berwyn	127	141	220	208	143	136	187
	Carchar EF y Parc	632	353	134	424	421	631	464
	Carchar EF Caerdydd	9	91	130	153	156	154	219
	Carchar EF Abertawe	168	87	48	69	72	24	71
	Carchar EF Brynbuga	13	5	<5	5	7	<5	<5
	Carchar EF Prescoed	19	24	<20	17	22	<15	<5
Siffilis	Carchar EF y Berwyn	314	492	1,065	1,354	3,746	4,520	4,388
	Carchar EF y Parc	109	369	<140	415	686	2,176	2,969
	Carchar EF Caerdydd	737	508	625	281	184	1,079	179
	Carchar EF Abertawe	163	20	<5	<5	21	230	433
	Carchar EF Brynbuga	33	111	225	<140	179	254	207
	Carchar EF Prescoed	53	189	261	197	258	245	190

Ffynhonnell: LIMS 2026

Mae Tabl 8 yn dangos proffil demograffig y gwrywod a brofwyd yn y carchar, gyda phrofion yn fwy niferus ymhlith: y rhai 25-34 oed; a'r rhai sy'n byw yng Ngharchar EF Berwyn. Yng Nghymru, mae pob un o'r chwe charchar yn garchardai i ddynion yn unig.

Tabl 8: Nifer y gwrywod a brofwyd mewn carchardai yng Nghymru, yn ôl grŵp oedran, carchar a blwyddyn 2016-2025

		2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025
Pawb					**2,275**	**2,307**	**2,766**	**3,087**	**5,595**	**8,974**	**8,903**
Oedran	0-14				0	0	0	0	<5	0	0
	15-24				655	463	447	571	736	1,123	1,029
	25-34				884	951	1,051	1,184	2,271	3,207	3,066
	35-44				413	516	726	754	1,528	2,821	2,869
	45-54				220	250	346	361	704	1,170	1,241
	55+				75	101	184	191	356	639	691
	Anhysbys				28	26	12	26	<30	14	7
Carchar	Carchar EF y Berwyn				396	583	1,257	1,531	3,882	4,640	4,559
	Carchar EF y Parc				749	709	259	743	898	2,431	3,115
	Carchar EF Caerdydd				747	592	704	399	312	1,161	359
	Carchar EF Abertawe				261	102	50	71	79	240	474
	Carchar EF Brynbuga				46	116	226	138	183	254	207
	Carchar EF Prescoed				76	205	270	205	268	248	189

Ffynhonnell: LIMS 2026

Profi yn ôl oedran (ffynonellau cyfunol)

Mae tueddiadau cyffredinol mewn profion am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol yn ôl grŵp oedran (Ffigur 4) yn dangos gostyngiad mewn profion ym mhob grŵp oedran ac eithrio 45-54 oed, gyda gostyngiadau mwy i'w weld yn y grwpiau oedran iau, yn enwedig grwpiau oedran 15-24 a 25-34 oed.



Ffynhonnell: SWS, Cynllun Profi a Phostio/TDL a LIMS, 2026

Ffigur 4: Nifer yr unigolion sy'n derbyn prawf STI, yn ôl grŵp oedran a blwyddyn

Noder: Gall data ar brofion glinigol fod yn anghyflawn oherwydd problemau ansawdd data
Mae'r ardal wedi ei gysgodi yn cyfeirio at ddata anghyflawn o 2025 a gall fod yn amodol ar newid mewn cyhoeddiadau yn y dyfodol

Diagnosisau STIs

Noder: Dim on data rhannol oedd ar gael ar gyfer BIPCF o 2025 ac felly dylid dehongli'r holl dueddiadau a chyfraddau mesul 100,000 o'r boblogaeth gyda gofal a gallant fod yn amodol ar newid mewn adroddiadau yn y dyfodol

Gostyngodd nifer y diagnosisau o heintiau a drosglwyddir yn rhywiol yn 2025 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ar draws pob clefyd (gweler Ffigur 5).



Ffynhonnell: SWS a Datastore, 2026

Noder: Gall data ar brofion glinigol fod yn anghyflawn oherwydd problemau ansawdd data
Mae'r ardal wedi gysgodi yn cyfeirio at ddata anghyflawn o 2025 a gall fod yn destun newid mewn cyhoeddiadau yn y dyfodol

Ffigur 5: Nifer yr unigolion a gafodd ddiagnosis o heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, yn ôl clefyd a blwyddyn

Dangosir nifer y diagnosisau o bob haint yn Nhabl 9. O'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn 2025:

- Mae diagnosisau o clamydia wedi gostwng (4,300 o achosion)
- Mae diagnosisau o gonoroea wedi gostwng (1,446 o achosion)
- Mae diagnosisau o siffilis wedi gostwng (414 o achosion)
- Gwelwyd gostyngiad yn nifer y diagnosisau o herpes gwenerol pwl cyntaf (913 o achosion)
- Gostyngodd diagnosisau o ddefaid gwenerol pwl cyntaf yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (880 o achosion)

Tabl 9: Nifer yr unigolion a gafodd ddiagnosis o STIs a chyfradd bositifedd (%), yn ôl lleoliad a blwyddyn 2016 i 2025

		2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025
Clamydia	SHC	6,128 10.9%	6,523 10.9%	6,097 10.4%	6,366 10.1%	4,183 15.0%	4,891 27.2%	6,021 27.5%	5,849 23.2%	5,143 19.6%	3,806 16.3%
	GP ANC	1,442 3.6%	1,364 3.6%	1,215 3.3%	1,236 3.3%	845 3.0%	775 2.4%	735 2.4%	665 2.2%	570 2.0%	460 1.6%
	Carchar				58 5.9%	37 5.2%	50 8.9%	42 4.7%	45 5.4%	46 4.7%	34 3.5%
	Cyfanswm	**7,570 7.9%**	**7,887 8.0%**	**7,312 7.7%**	**7,660 7.6%**	**5,065 9.0%**	**5,716 6.5%**	**6,798 7.0%**	**6,559 6.4%**	**5,759 5.8%**	**4,300 4.3%**
Gonorea	SHC	920 1.6%	1,119 1.9%	1,248 2.1%	1,528 2.4%	1,191 4.3%	1,442 8.0%	2,982 13.6%	3,648 14.5%	2,343 8.9%	1,382 5.9%
	GP ANC	41 0.5%	74 0.6%	76 0.6%	70 0.5%	65 0.5%	85 0.4%	144 0.7%	154 0.7%	87 0.4%	58 0.3%
	Carchar				12 1.2%	5 0.7%	8 1.5%	13 1.5%	11 1.3%	11 1.1%	6 0.6%
	Cyfanswm	**961 1.5%**	**1,193 1.7%**	**1,324 1.9%**	**1,610 2.1%**	**1,261 3.1%**	**1,535 2.0%**	**3,139 3.5%**	**3,813 4.0%**	**2,441 2.5%**	**1,446 1.6%**
Siffilis	SHC	180 0.6%	249 0.7%	281 0.9%	331 1.0%	233 1.7%	299 3.4%	341 2.5%	404 2.3%	375 2.1%	276 1.6%
	GP ANC	67 0.2%	59 0.2%	69 0.3%	89 0.3%	74 0.3%	78 0.3%	79 0.3%	96 0.4%	96 0.4%	276 0.4%
	Carchar				20 1.4%	13 0.8%	13 0.6%	19 0.8%	34 0.7%	66 0.8%	83 0.7%
	Cyfanswm	**247 0.4%**	**308 0.5%**	**350 0.6%**	**440 0.7%**	**320 0.8%**	**390 0.7%**	**439 0.7%**	**534 0.8%**	**537 0.8%**	**414 0.6%**
Herpes yr Organau Cenhedlu	SHC/Cynfanswm	**1,495**	**1,422**	**1,535**	**1,582**	**1,079**	**1,113**	**1,360**	**1,368**	**1,321**	**913**
Defaid Gwenerol	SHC/Cynfanswm	**3,209**	**2,996**	**2,649**	**2,321**	**1,313**	**1,329**	**1,227**	**1,150**	**1,194**	**880**

Ffynonellau: SWS a Datastore, 2026

Cyfradd bositifedd (%) yw cyfran yr holl unigolion a brofwyd a gafodd canlyniad positif
Gall data ar gyfer diagnosisau clinigol fod yn anghyflawn oherwydd problemau ansawdd data
Mae pob diagnosis a wneir drwy wasanaeth GPP yn cael ei gyfeirio at glinigau Iechyd Rhywiol ac yn cael ei gynnwys yn y data SHC.

Caiff pob unigolyn sy'n derbyn canlyniad prawf STI positif o'r gwasanaeth GPP ei atgyfeirio at SHC i gael triniaeth a gofal. Felly mae diagnosisau o'r fath yn cael eu hadrodd yn y data SHC (Tabl 9). Mae Tabl 10 yn dangos nifer yr unigolion a gafodd ganlyniad prawf GPP positif.

Tabl 10: Nifer yr unigolion a brofwyd a nifer a chyfran (%) yr unigolion â chanlyniad positif yn GPP, yn ôl STI a blwyddyn 2021 i 2025

		2021	2022	2023	2024	2025
Clamydia	Nifer y unigolion a brofwyd	40,016	45,768	47,911	46,480	44,206
	Nifer y unigolion sydd â phrawf cadarnhaol	3,497 8.7%	4,504 9.8%	4,198 8.8%	3,589 7.7%	3,132 7.1%
Gonorea	Nifer y unigolion a brofwyd	40,024	45,772	47,939	46,506	44,220
	Nifer y unigolion sydd â phrawf cadarnhaol	604 1.5%	1,609 3.5%	1,965 4.1%	1,112 2.4%	839 1.9%
Siffilis	Nifer y unigolion a brofwyd	20,331	22,708	22,721	22,441	21,017
	Nifer y unigolion sydd â phrawf cadarnhaol	16 0.1%	15 0.1%	16 0.1%	33 0.1%	13 0.1%

Ffynhonnell: Gwasanaeth Profi a Phostio/TDL, 2026

Clamydia

Roedd diagnosisau clamydia yn fwyaf niferus ymhilth menywod, y rhai 15-24 oed a chlinigau yn BIPAB. Mae Tabl 11 yn dangos y gyfradd ddiagnosis fesul 100,000 o'r boblogaeth yn Nhabl 11 (ac Atodiad C).

Tabl 11: Diagnosisau clamydia fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl rhyw, oedran, Bwrdd Iechyd, ethnigrwydd $, a blwyddyn (ffynonellau cyfunol). Mae'r lliw glas tywyllach yn dynodi cyfraddau uwch.

		2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023
Pob un		**246.0**	**256.0**	**237.1**	**248.1**	**163.2**	**184.1**	**217.0**	**207.3**	**180.7**	**134.9**
Rhywedd	Menywod	288.8	300.2	277.8	286.4	189.2	213.1	256.3	231.6	201.1	156.7
	Dynion	201.5	209.9	194.9	207.9	135.8	153.1	174.3	170.7	152.7	110.5
Oedran	0-14	4.6	3.3	1.9	2.1	0.8	1.6	0.8	2.5	1.0	0.8
	15-24	1366.4	1464.3	1334.9	1409.7	866.3	929.8	1194.4	1083.6	878.3	634.0
	25-34	478.9	500.7	484.8	498.9	375.3	456.9	452.1	417.9	405.9	322.3
	35-44	99.8	99.3	108.6	115.5	89.2	114.3	125.1	121.5	127.4	104.8
	45-54	32.7	28.5	32.6	38.6	26.4	33.8	36.2	46.9	45.7	32.7
	55+	5.5	5.2	5.1	7.6	4.9	5.7	7.7	9.3	10.7	7.2
BI	BIPAB	325.4	309.8	284.9	282.2	183.2	186.8	210.1	186.3	173.5	160.9
	BIPBC	206.4	188.5	195.3	205.5	141.1	156.3	181.5	161.6	147.2	123.2
	BIPCTM	203.1	187.5	131.7	143.9	78.8	125.5	140.7	131.5	130.0	113.5
	BIPCaF	272.5	386.8	410.1	413.0	275.5	329.3	381.2	360.4	305.2	152.2
	BIPHDd	181.9	191.8	189.2	157.9	119.8	130.5	153.9	165.4	149.0	112.3
	BIAP	29.4	24.2	21.2	16.7	9.8	10.5	10.5	6.0	11.1	3.0
Ethnigrwydd	BIPBA	351.6	353.2	262.3	351.5	221.1	224.8	298.8	314.4	233.7	184.8
	Asiaidd	37.1	47.1	58.5	68.4	27.1	23.6	38.2	67.4	59.5	39.3
	Du	415.8	514.3	481.5	426.8	339.2	297.6	794.9	704.2	482.8	765.9
	Cymysg	282.4	326.8	323.6	307.7	203.0	148.1	197.5	195.5	183.1	117.3
	Gwyn	189.5	196.6	181.5	185.2	104.1	103.9	121.3	123.7	112.5	80.3

Ffynhonnell: SWS a LIMS, 2026

[$] Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r gyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl ethnigrwydd o 2021 ymlaen oherwydd bod cyfran fawr o gofnodion ag ethnigrwydd 'Anhysbys' - gweler Atodiad B - cyfyngiadau data
Sylwch: Mae data ar gyfer diagnosisau clinigol yn anghyflawn oherwydd problemau ansawdd data.

Gonoroea

Roedd diagnosisau gonoroea (Tabl 12 ac Atodiad D) yn fwyaf niferus ymhlith dynion, y rhai 15-24 oed a chlinigau yn BIPBA.

Tabl 12: Diagnosisau gonoroea fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl rhyw, oedran, Bwrdd Iechyd, ethnigrwydd $, a blwyddyn (ffynonellau cyfunol). Mae'r lliw glas tywyllach yn dynodi cyfraddau uwch.

		2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023
Pob un		**31.2**	**38.7**	**42.9**	**52.1**	**40.6**	**49.4**	**100.2**	**120.5**	**76.6**	**45.4**
Rhywedd	Menywod	22.9	28.7	25.7	34.2	31.1	37.6	80.0	102.5	50.0	28.4
	Dynion	39.9	49.1	60.8	70.7	50.4	61.6	119.8	136.2	102.7	62.9
Oedran	0-14	1.0	0.0	0.2	0.2	0.6	0.4	0.4	1.6	2.0	0.4
	15-24	130.2	156.7	155.8	189.6	153.2	170.0	475.2	547.0	240.9	125.6
	25-34	76.3	96.3	121.5	141.8	111.3	142.8	216.2	255.0	203.7	113.3
	35-44	27.8	35.2	43.8	58.5	51.7	59.2	91.4	116.8	102.5	74.9
	45-54	12.4	19.2	20.9	28.0	14.9	24.0	36.7	45.6	46.0	36.2
	55+	2.2	3.8	4.7	5.7	2.8	5.8	7.7	10.0	10.6	7.8
BI	BIPAB	30.9	42.3	55.1	64.3	50.6	60.9	91.0	115.6	80.1	54.0
	BIPBC	20.4	29.7	28.8	35.5	38.2	37.3	75.8	74.6	53.6	43.2
	BIPCTM	23.1	23.9	16.8	16.5	12.9	26.7	47.9	65.2	53.6	38.1
	BIPCaF	77.1	92.2	104.1	119.3	83.2	115.4	234.6	280.7	157.8	53.3
	BIPHDd	12.1	18.2	18.3	20.4	16.5	15.7	40.2	69.3	51.9	32.6
	BIAP	0.0	0.8	0.0	0.0	1.5	3.0	0.7	2.2	0.0	0.7
	BIPBA	32.9	32.1	41.5	68.4	44.3	45.0	136.6	151.7	81.4	61.6
Ethnigrwydd	Asiaidd	2,890.4	2,894.7	2,897.6	2,904.7	2,893.3	2,284.8	2,300.5	2,333.1	2,324.1	2,300.5
	Du	82.1	65.7	136.8	158.7	125.8	101.6	235.9	315.8	214.2	174.2
	Cymysg	41.2	69.8	111.0	190.3	107.9	84.4	158.4	226.3	214.0	170.8
	Gwyn	27.0	32.7	36.5	44.0	30.1	31.6	64.6	89.2	58.9	33.6

Ffynhonnell: SWS a LIMS, 2026

$ Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl ethnigrwydd o 2021 ymlaen oherwydd bod cyfran uchel o gofnodion ag ethnigrwydd 'Anhysbys' - gweler Atodiad B - cyfyngiadau data
Sylwch: Mae data ar gyfer diagnosisau clinigol yn anghyflawn oherwydd problemau ansawdd data.

Siffilis

Roedd diagnosisau siffilis (Tabl 13 ac Atodiad E) yn fwyaf niferus ymhlith dynion, er bod cyfraddau ymhlith menywod wedi cynyddu dros y degawd diwethaf, y rhai 25-34 oed a chlinigau yn BIPAB.

Tabl 13: Diagnosisau siffilis fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl rhyw, oedran, Bwrdd Iechyd, ethnigrwydd $, a blwyddyn (ffynonellau cyfunol). Mae'r lliw glas tywyllach yn dynodi cyfraddau uwch.

		2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024	2025
Pob un		**8.0**	**10.0**	**11.3**	**14.2**	**10.3**	**12.6**	**14.0**	**16.9**	**16.9**	**13.0**
Rhywedd	Menywod	5.2	4.7	5.5	7.4	5.3	5.2	6.8	7.9	8.6	8.3
	Dynion	10.9	15.5	17.4	21.4	15.4	20.1	21.6	26.2	25.5	17.9
Oedran	0-14	0.0	0.0	0.0	0.2	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.2
	15-24	13.9	12.6	19.4	22.4	15.7	14.2	18.4	16.8	13.8	10.9
	25-34	20.9	27.8	37.5	44.9	33.4	39.3	38.7	52.8	55.4	39.8
	35-44	16.3	23.3	19.3	23.8	17.1	25.9	28.1	36.2	35.2	28.9
	45-54	7.8	10.4	9.2	15.1	11.3	13.0	15.4	18.1	18.6	12.5
	55+	2.4	2.8	2.9	3.8	2.5	3.9	5.2	5.0	4.9	4.6
BI	BIPAB	6.2	12.4	12.5	13.0	9.4	16.3	13.7	21.8	23.1	18.6
	BIPBC	5.2	7.3	8.7	10.4	6.2	6.4	10.7	11.1	13.3	9.8
	BIPCTM	5.7	6.6	6.6	11.3	10.4	6.8	8.8	9.2	11.3	12.0
	BIPCaF	17.3	17.4	20.9	29.2	14.6	21.7	24.8	24.1	21.0	11.2
	BIPHDd	5.5	5.3	6.6	4.2	10.2	7.8	6.2	7.5	11.8	8.5
	BIAP	0.0	0.8	0.0	0.8	0.0	0.0	3.7	1.5	0.7	0.0
	BIPBA	12.1	13.1	15.2	21.6	16.8	21.9	22.9	33.6	24.6	22.6
Ethnigrwydd	Asiaidd	5.7	2.9	0.0	5.7	2.9	3.4	9.0	19.1	10.1	9.0
	Du	21.9	21.9	21.9	43.8	10.9	14.5	29.0	29.0	25.4	36.3
	Cymysg	9.5	6.3	25.4	9.5	19.0	12.3	8.2	22.6	14.4	4.1
	Gwyn	5.1	7.4	8.4	9.6	6.4	7.2	8.4	9.9	9.4	6.7

Ffynhonnell: SWS a LIMS, 2026

$ Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl ethnigrwydd o 2021 ymlaen oherwydd bod cyfran uchel o gofnodion ag ethnigrwydd 'Anhysbys' - gweler Atodiad B - cyfyngiadau data
Sylwch: Mae data ar gyfer diagnosisau clinigol yn anghyflawn oherwydd problemau ansawdd data.

Gwyliadwriaeth siffilis estynedig

Pan gaiff unigolyn ddiagnosis o siffilis mewn clinig iechyd rhywiol, bydd ffurflen gwyliadwriaeth siffilis estynedig (ESS) yn cael ei llenwi i gofnodi gwybodaeth fanylach, fel cam yr haint. Yn 2025, o'r 276 o unigolion a gafodd ddiagnosis o siffilis mewn SHCs, cwblhawyd ffurflen estynedig ar gyfer 80.8% (223 o achosion), a dangosir hyn yn Nhabl 14.

Tabl 14: Nifer yr unigolion a gafodd ddiagnosis o siffilis, ffurflenni gwyliadwriaeth siffilis estynedig, yn ôl cam yr haint a'r flwyddyn 2016 i 2025

